**UHY Hacker Young**
Cyfrifyddion Siartredig

St John's Chambers
Love Street
Chester CH1 1QN

Ffôn 01244 320532
Ffacs 01244 505930
E-bost office@uhy-chester.com
Y Wê www.uhy-uk.com

Mr Berwyn Evans
Cadeirydd Cyngor Cymuned Llansannan
7 Llwyn Gibwst
Llansannan
Dinbych LL16 5HQ

10 Hydref 2012

Annwyl Mr Evans

**Adroddiad Uniongyrchol er Lles y Cyhoedd**
**Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004**

Rwy'n ysgrifennu atoch fel cadeirydd Cyngor Cymuned Llansannan am nad oes Clerc i'r Cyngor.

Fel y gwyddoch, fi yw archwilydd allanol penodedig y Cyngor ac rwyf wedi bod yn adolygu agweddau penodol o gyfrifon y Cyngor. Rwyf hefyd wedi bod yn derbyn gohebiaeth gan aelodau o'r cyhoedd mewn perthynas â'm harchwiliad.

Ar gam cynnar yn y broses, tynnwyd fy sylw at y ffaith nad oedd y dyddiad a bennais yn wreiddiol ar gyfer cychwyn yr archwiliad wedi'i hysbysebu'n gywir. Felly ysgrifennais at eich clerc blaenorol yn gofyn iddo hysbysebu cychwyniad yr archwiliad unwaith eto, a hynny ar gyfer dyddiad diweddarach.

Er bod yr ail broses yma wedi'i hysbysebu'n gywir, ni lwyddodd y Cyngor i ddarparu mynediad digonol at ei gofnodion mewn cydweithrediad â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf).

O ganlyniad i'r methiant yma, rwyf wedi penderfynu cyhoeddi Adroddiad Uniongyrchol er Lles y Cyhoedd o dan Adran 22 y Ddeddf sy'n rhoi amlinelliad manylach o'm pryderon a'r camau y mae angen i'r Cyngor eu cymryd. Mae fy Adroddiad wedi'i atodi at y llythyr hwn.

O dan adrannau 24-27 y Ddeddf mae gofyn i chi gymryd camau penodol yn awr, ac, er cyfleustra i chi, rwy'n amgáu copi o'r Adrannau hynny. Os ydych yn ansicr pa gamau pellach y dylech eu cymryd, dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol ar unwaith.

Yn unol â'n camau arferol, bydd fy Adroddiad wedi'i gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r Adroddiad hwn.

Yn gywir iawn

NS Jenkins
Partner, UHY Hacker Young
Archwilwyr Penodedig

Cofrestrwyd gan y Sefydliad Cyfrifyddion Siartredig yn Lloegr a Chymru i ymgymryd â gwaith archwilio ac Awdurdodwyd a Rheolwyd gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ar gyfer busnes buddsoddi.

~~AH Thomas FCA~~. JG Ierston FCA ATII. ~~PT Harries ACA~~. NS Jenkins FCA. Ymgynghorydd: BS Jenkins FCA

Aelod o Grŵp UHY Hacker Young o bartneriaethau annibynnol y DU.
Aelod o UHY, cymdeithas ryngwladol o ffyrmiau annibynnol cyfrifo ac ymgynghori.